Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL**.

NODER – NID YW'R CYFARFOD HWN YN AGORED I'R CYHOEDD.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **CLIMATE CHANGE AND ECOLOGICAL EMERGENCY WORKING GROUP** are attached below.

PLEASE NOTE – THIS MEETING IS NOT OPEN TO THE PUBLIC.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Head of Legal, HR and Democratic Services**

**AGENDA**

**1** **RHAGLEN** (Tudalennau 3 - 4)

**2** **COFNODION** (Tudalennau 5 - 18)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# RHAGLEN

## CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17 Rhagfyr 2020 |
| **Amser** | 09.30-11.00 |
| **Lleoliad** | Fideo-Gynadledda Webex |
| **Cadeirydd** | Y Cyng. Graham Timms |
| **Hwylusydd** | Helen Vaughan-Evans (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd) |
| **Ymddiheuriadau** | Judith Greenhalgh |

**1. Croeso ac ymddiheuriadau** 09.30 – 09.35

**2. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf** 09.35 - 10.00

**3. Drafft cyn ymgynghori o’r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol** 10.00 – 10.50

- Ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus
- Siapio’r strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol terfynol

**4. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac unrhyw fater arall** 10.50 – 11.00

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol

**Dyddiad** 10 / 11 / 2020

**Amser** 14.30 - 16.00

**Lleoliad** Fideo-Gynadledda Webex

**Yn bresennol** Cynghorydd Gwyneth Kensler (GK); Cynghorydd Bobby Feeley (BF); Cynghorydd Barry Mellor (BM); Cynghorydd Brian Jones (BJ); Cynghorydd Arwel Roberts (AR); Cynghorydd Graham Timms (GT); Cynghorydd Joe Welch (CJW); Cynghorydd Tony Thomas (TT)

**Ymddiheuriadau** Cynghorydd Bobby Feeley (BF), Nicola Kneale (NK)

**Hefyd yn bresennol** Swyddogion Cefnogi: Judith Greenhalgh (JG), Helen Vaughan-Evans (HVE), Tom Booty (TB); Howard Sutcliffe (HS); Liz Wilcox-Jones (LWJ); Andrew Cutts (AC); Chris Brown (CB), Heidi Barton-Price (HBP), Joel Walley (JW), Louise Dougal (LD), Mike Jones (MJ), Tony Ward (TW)

## 1.Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd GT bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf yn gywir.

## Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

Adolygwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a rhoddwyd diweddariad gan HVE. Gweler y tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i wneud.

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **LWJ / HVE-** i barhau gyda chynlluniau ar gyfer y wefan, fforwm trafodaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus. | **AR Y GWEILL**<br>• Gwefan – cwblhawyd, lansiwyd yn Wythnos yr Hinsawdd Cymru<br>• Fforwm Trafod – i fod i gael ei lansio ym mis Rhagfyr<br>• Ymgynghoriad Cyhoeddus - ar y trywydd iawn ar gyfer lansio ddydd Llun, 16 Tachwedd |
| **HS / LW –** Llythyr drafft Cyng Tony Thomas a'r Cyng Graham Timm ar adolygiad o Asiant Cefnffordd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gofyn beth maent yn ei wneud i leddfu colli coed (yn arbennig coed aeddfed) ar ôl eu torri ar hyd yr A55. Llythyr i'w anfon gan y gweithgor hwn o dan enw GT a'r AHNE o dan enw TT. | **AR Y GWEILL**<br>• Llythyr yn cael ei baratoi gan LWJ gydag Aelodau ar gyfer ei gymeradwyo. |
| **HVE/GT/BJ/TT –** Darparu uchafbwyntiau / elfennau allweddol a ddysgwyd o'r hyfforddiant CAT i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. | **AR Y RHAGLEN**<br>• GT yn arwain yr adborth. |

## Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **RH –** anfon Adroddiad Blynyddol WGES at HVE i'w rannu gyda'r grŵp. | **CWBLHAWYD**<br>• Anfonwyd gwybodaeth o fewn e-bost papurau'r cyfarfod |
| **RP –** anfon gwybodaeth at HVE am newyddlen wythnos yr hinsawdd a dolen cofrestru ar gyfer digwyddiad LIC i'w rannu gyda'r grŵp | **CWBLHAWYD**<br>• Anfonwyd gwybodaeth drwy e-bost |
| **RP** – darparu manylion cyswllt ar gyfer arweinydd defnydd tir yn Llywodraeth Cymru i gynrychiolwyr CSDd gael cyfarfod. | **AR Y GWEILL**<br>• HVE wedi gwneud cais drwy e-bost |
| **HS –** anfon adroddiad Carbon Glas Cyfoeth Naturiol Cymru at y grŵp. | **AR Y GWEILL** |
| **HVE –** gwneud newidiadau i'r ddogfen strategaeth yn sgil yr adborth. | **CWBLHAWYD** |
| **HVE / LWJ –** cynhyrchu fersiynau hawdd eu deall a ffeithlun o'r strategaeth drwy | **AR Y GWEILL**<br>• Hawdd ei ddefnyddio i bobl ifanc - cwblhawyd |

# Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| weithio gyda chydweithwyr/darparwyr allanol | • Ffeithlun – cam drafft terfynol yn barod i'w gyfieithu<br>• Hawdd ei ddeall – drafft cyntaf |
| **HVE –** anfon gwybodaeth strategaeth/ymgynghoriad at holl Gadeiryddion y Llywodraethwyr | **AR Y GWEILL** |
| **LWJ –** ychwanegu GT, BJ a TT at y cyfarfod Ysgol/Cyngor Ysgol gan gysylltu â threfnydd y cyfarfod. | **CWBLHAWYD** |
| **LWJ –** gofyn am slot hirach yn y cyfarfod Ysgol/Cyngor Ysgol. | **CWBLHAWYD**<br><br>• Nawr yn cael 30 munud. |

<u>Adolygiad o lythyr drafft i Lesley Griffiths AC</u>

Aeth HVE â'r grŵp drwy'r fersiwn drafft presennol o'r llythyr.

## Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

Adborth yn cynnwys: mwy dynamig, son am brosiectau penodol, son am gais i weithio gyda gweision sifil o fewn Adrannau Datgarboneiddio a Defnydd Tir ac Ecoleg, son am

**CAM GWEITHREDU:**

**HVE** – i wneud newidiadau i'r llythyr a'i anfon at BJ i'w adolygu.

weision sifil yn ôl enw.

Bydd drafft yn cael ei adolygu gan BJ a'i anfon pan yn barod. Trafodaeth y dylai hyn fod ar ôl i'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol gael ei chymeradwyo.

Uchafbwyntiau a'r gwersi allweddol a ddysgwyd o Hyfforddiant Prydain Di-garbon Canolfan Dechnoleg Amgen (CAT)

Aeth GT â'r grŵp drwy'r elfennau allweddol o'r cwrs drwy gyflwyniad.

Roedd meysydd allweddol yn cynnwys:

- Trosolwg cyffredinol o'r broblem
- 'Cynyddu effeithlonrwydd ynni' – lleihau'r galw am ynni
- 'Troi ymlaen' – cynyddu dibyniaeth ar ynni cynaliadwy.
- Deiet a defnydd tir

Prif siaradwyr yn cynnwys:

- Andrews Simms ar bontio cyflym https://www.rapidtransition.org
- Rob Hopkins ar O Beth Yw i Beth Os https://transitionnetwork.org

Adroddiad Prydain Di-Garbon Llawn gan CAT ar gael yma: https://www.cat.org.uk/info-resources/zero-carbon-britain/research-reports/zero-carbon-britain-rising-to-the-climate-emergency/

## Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

Materion yn codi

Gofynnodd GK am arlwyo mewn ysgolion i leihau cig ar fwydlenni fel dewisiadau prydau carbon isel. Roedd TW yn nodi nad yw ysgolion yn gorfod ein defnyddio ni fel arlwywyr ac y byddai unrhyw newidiadau i fwydlenni angen eu gwneud mewn partneriaeth gyda'n cwsmeriaid e.e. yr ysgolion. TW yn hapus i edrych ymhellach i fwydlenni carbon isel ar gyfer prydau ysgol. Trafodaeth am fater cynhennus posibl lleihau bwyta cig yn arbennig gydag amaethyddiaeth yn ddiwydiant amlwg yng Nghymru.

**CAMAU:**

**TW** – i drafod gyda Nigel Highfield yn Rheoli Cyfleusterau am gynnwys bwydlenni carbon isel a dod â sylwadau yn ôl i'r grŵp.

**HVE** – i anfon enghreifftiau o fwydlenni carbon isel gan CAT at TW

### 3. Trafodaeth ar thema Teithio – ein fflyd ein hunain, milltiroedd busnes a thaith staff i'r gwaith

Clywodd y grŵp gan 3 siaradwr ar destunau gwahanol ar y thema Teithio.

# Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

| | Business Travel & Staff Commute | Fleet | Wider Denbighshire |
|---|---|---|---|
| **2019/20 carbon baseline** | BT- 550 tCO2e<br>SC- 1,848 tCO2e | 2,693 tCO2e | N/A |
| **2030 reduction target** | BT- 80%<br>SC- 55% | 60% | N/A<br>(will support business travel, staff commute and fleet targets) |
| **Verbal Update from** | Catrin Roberts (HR Services Manager) on **New Ways of Working COVID 19 Recovery Theme** | Chris Brown (Fleet Manager) on **EV's and Corporate Charging Infrastructure** | Mike Jones (Traffic, Parking and Road Safety Manager) on **Public EV Charging Infrastructure** |

<u>Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan Cyhoeddus</u>

Aeth MJ â'r grŵp drwy waith y Cyngor yn gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus.

Astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol o 52 safle maes parcio wedi eu hariannu gan Cadwyn Clwyd.

Roedd pob safle wedi'i nodi'n flaenoriaeth uchel, canolig ac isel a 9 wedi eu nodi yn flaenoriaeth uchel gyda chwmpas daearyddol da ar draws y sir.

Nid yw 36% o gerbydau wedi eu parcio oddi ar y stryd ac felly gallai effeithio ar bobl yn prynu cerbyd trydan. Grant ar gael.

Gwnaed cais am £84k o gyllid CSDd yng nghyllideb 2021/22 i helpu i ariannu peilot pwyntiau gwefru cerbydau cyhoeddus.

Gall hyn gael ei ategu gan £45 mil mewn ceisiadau am arian grant i'r Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel.

Nodi'r model gorau a chreu system ble gall y cyhoedd a cherbydau fflyd CSDd eu defnyddio tra'n ystyried hyd yr arhosiad gofynnol e.e. tra'n siopa ac ati.

# Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

Cam nesaf i gwblhau cais OLEV, ymgysylltu â rhanddeiliaid, dechrau newidiadau Gorchymyn Traffig gyda'r bwriad o osod pwyntiau gwefru yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.

<u>Lleihau Carbon o Fflyd CSDd</u>

Aeth CB â'r grŵp drwy fflyd CSDd a'r cynllun i leihau'r allyriadau carbon o'n cerbydau.

Angen strategaeth i gyflawni hyn. Gydag 14 gwefrydd cerbydau sydyn mewn 7 lleoliad ar hyn o bryd (3 yn y prif swyddfeydd a 4 depo gweithredol).

Yn ogystal, mae sawl cerbyd trydan bach wedi'i brynu sy'n gweithio o 5 o'r lleoliadau.

Nid oes yna gyllideb ar hyn o bryd i ddatblygu'r seilwaith cerbydau trydan ymhellach ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, mae yna bolisi disodli diwedd bywyd gyda cherbyd trydan ar gael.

Mae treial un wythnos ar gerbyd trydan sbwriel wedi'i gynnal. Yn gymharol llwyddiannus ond yn golygu ei fod yn defnyddio llawer o'r trydan yn y depo sydd angen sylw ac mae'r gost gychwynnol 3 gwaith cost cerbyd sbwriel safonol.

Gall torwyr gwair trydan fod yn ddewis gwirioneddol pan fydd angen newid cerbydau presennol.

Ar ôl 2025 dylai'r sector cyhoeddus ond prynu ceir a faniau bach Allyriadau Isel Iawn i gydymffurfio gyda pholisi Llywodraeth Cymru. Y targed ar gyfer cerbydau mawr (e.e.graeanwyr, loriau bin) yw 2030.

<u>Lleihau carbon o Deithio ar gyfer Teithiau Busnes a Theithio</u>

Aeth LD â'r grŵp drwy'r prosiect gweithio'n hyblyg ac o bell.

Mae'r prosiect yn dod o'r Cynllun Thema Adferiad Covid a thrafodwyd gyda chydweithwyr undeb. Y swyddog arweiniol yw Alan Smith a'r aelod arweiniol yw'r Cyng Richard Mainon.

## Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

Prif themâu adferiad – gweithio dros y we, mynediad CAG (wedi cynyddu o 200 i bron 1600 o ddefnyddwyr yn llwyddiannus), roedd manteision democrataidd i'r newid hwn yn cynnwys gostyngiad mewn milltiroedd busnes a'r ymrwymiad amser oedd yn ymwneud â hyn.

Y gobaith yw cynnal y ffyrdd newydd hyn o weithio ar ôl Covid.

Dywedodd HVE fod staff CSDd wedi teithio dros 6 miliwn o filltiroedd yn 2019/20. Ar gyfer C1 2020/21 yn ystod cyfnod clo'r Covid roedd yna oddeutu 66% o ostyngiad mewn hawliadau milltiroedd busnes.

Prif amcanion y Prosiect Gweithio Hyblyg ac o Bell yw:

- Gwneud y cyngor yn fwy effeithlon
- Lleihau ôl troed carbon y cyngor
- Cynyddu cyfranogiad democrataidd
- Gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Cynyddu cynaliadwyedd cymunedau gwledig
- Sicrhau fod adeiladau'r Cyngor yn cael eu llunio i adlewyrchu lefel yr angen yn y ffordd orau bosibl.

Mae Alan Smith wedi sefydlu trefniant Llywodraeth Cymru i drafod ffyrdd newydd o weithio.

Roedd arolwg staff ar ffyrdd newydd o weithio yn cynnwys cyfradd ymateb 44%. Roedd adborth yn cynnwys fod gan staff gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith o ganlyniad i lai o deithio ac egwyl personol. Roedd staff yn teimlo eu bod yn gallu gweithio gartref y rhan fwyaf o'r amser gyda 64% yn dweud y byddent ond angen mynd i'r swyddfa deuddydd neu lai yr wythnos.

3 prif bryder – colli cydweithwyr, teimlo'n ynysig a staff yn mynegi pryderon am eu hamgylchedd gwaith e.e. offer ac ati.

## Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

Mae'r grŵp yn gweithio ar gynhyrchu datganiad ar gyfer ffordd newydd o weithio y cytunir arno ar gyfer y dyfodol.

<u>Sesiwn cwestiwn ac ateb gydag MJ, CB ac LD</u>

Gwefru Cerbydau Trydan Cyhoeddus

- Gofynnodd GT pa mor gyflym y bydd seilwaith maes parcio newydd yn cael ei weithredu ac a allem ddefnyddio meysydd parcio ysgolion ac ati. Dywedodd MJ o fewn y flwyddyn ariannol newydd. Meysydd parcio cyhoeddus yn unig a ystyrir gan eu bod am ddim ac yn hygyrch dros nos ond gallai meysydd parcio eraill gael eu hystyried yn dibynnu ar ddiogelwch.

Carbon o Fflyd

- GT – cynnydd araf os mai'r nod yw disodli pob cerbyd erbyn 2025 ar ôl diwedd eu hoes. Eglurodd CB bod yna gyfyngiadau o ganlyniad i seilwaith a'r gallu i ymdopi gyda'r galw ychwanegol. Bydd cynnydd yn parhau'n araf oni bai bod y meysydd hyn yn derbyn sylw. Bydd hydrogen yn cynnwys y mwyafrif o'r ateb ar gyfer cerbydau mwy ond mae argaeledd hyn yn gyfyngedig yng Nghymru.
- Ychwanegodd BJ fod y depo gwastraff newydd wedi'i sefydlu ar gyfer cerbydau trydan yn unig ar hyn o bryd ond nodwyd ei bod yn bosibl ychwanegu'r hydrogen yno os bydd angen.
- HVE – roedd cais cyllideb wedi mynd i 2021/22 fyddai'n galluogi gosod 5 pedestal gwefru cerbydau trydan ychwanegol (2 bwynt gwefru ar bob un) a newid 47 car a cherbyd bach i drydan.

Gweithio'n Hyblyg ac o Bell

- BM – gofynnodd a allai cynghorwyr weld canlyniadau'r arolwg gan staff ac aelodau. Staff a gefnogir yn gweithio gartref pan fydd angen. Yn gyffredinol teimlir bod cyfarfodydd dros y we yn gweithio ond soniwyd nad yw rhai cyfarfodydd dros y we yn gweithio gan gynnwys trwyddedu (er enghraifft, mae'r unigolyn yn gorfod gadael

tra cynhelir trafodaethau). Ymatebodd LD y byddai'n adborth sylwadau i aelodau'r grŵp.

- CJW – ar yr elfen hinsawdd o weithio gartref, mae llai o filltiroedd yn gadarnhaol ond hefyd mae'n bosibl bod y defnydd o ynni gartref wedi cynyddu. A fydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y gostyngiad yn y teithio? Dywedodd HVE ein bod yn dilyn canllawiau nwy tŷ gwydr Llywodraeth Cymru nad ydynt yn cynnwys allyriadau o gartrefi staff, mae'n cynnwys allyriadau a gynhyrchir ar dir ac eiddo'r cyngor yn unig. Fodd bynnag, oherwydd ein bod yn sir wledig, rydym yn disgwyl i faint o deithio a wneir gael ei osod yn erbyn yr ynni a ddefnyddir gartref ar gyfer yr agenda carbon mwy.
- GK – yn dweud ei bod yn gobeithio na fyddai pobl oedd yn dymuno gweithio yn y swyddfa yn cael eu cosbi. Hefyd, oes yna ganllawiau ar fanteision treth ac yswiriant wrth i'r cartref fod yn fusnes. Byddai LD yn adborth sylwadau a dywedodd fod angen rhoi sylw i'r ystyriaethau hyn a'u cynnwys mewn unrhyw bolisïau a phecynnau newydd sy'n cael eu creu.
- Dywedodd GT am gysylltiadau rhyngrwyd gwael fel rhywbeth y byddai'r gweithgor Ffyrdd Newydd o Weithio angen ei ystyried. - - yn
- GK yn son am recriwtio staff dros y we. Dywedodd LD y bydd yn rhaid i ni edrych ar wneud ein ffyrdd o weithio yn glir i staff newydd posibl a hefyd ystyried cyfarfodydd sefydlu i staff newydd yn y ffordd o weithio dros y we.
- Dywedodd JG y gallai olygu y gall CSDd o bosibl ddenu o gronfa mwy eang o staff gan y gallai gyflogi pobl sy'n gallu gweithio o bell. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau fod lles staff yn flaenoriaeth.

- AR yn codi pwysigrwydd gweld pobl wyneb yn wyneb a phwysigrwydd y cyswllt

**CAMAU GWEITHREDU:**

- **LD –** i anfon canlyniadau arolwg staff mewn perthnas â ffyrdd newydd o weithio at HVE i'w dosbarthu i'r gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol.
- **LD –** adborth y pryderon a godwyd i'r gweithgor Ffyrdd Newydd o Weithio a godwyd yn ymwneud â rhai cyfarfodydd ddim yn gweithio o bell a'r angen i ddosbarthu gofynion yswiriant a manteision treth i staff sydd nawr yn gweithio gartref.

hwn.

Diolchodd GT i MJ, CB ac LD am eu hamser a'u cyfraniad.

## 7. Rhaglen gwaith i'r dyfodol a chyfarfodydd nesaf

Aeth HVE â'r grŵp drwy'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

| **Mis** | **Eitemau arfaethedig gyfer eu trafod** |
|---|---|
| 17 Rhagfyr | Thema: Drafft cyn ymgynghori o'r Strategaeth a'r Cynllun gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol drafft.<br>• Ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus<br>• Siapio'r strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol terfynol |

## Nodiadau cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol; 10.11.20

| | |
|---|---|
| 14 Ionawr | Thema: Defnydd Tir<br>• Myfyrio ynghylch ystyriaethau'r Cyngor o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol.<br>• Defnydd Tir er budd dal carbon a gwelliant ecolegol<br>• Dysgu gan Gyfoeth Naturiol Cymru |
| 9 Chwefror | Thema: Newid Ymddygiad<br>• Newid mewn cyfathrebu ac ymddygiad ymysg staff a chynghorwyr<br>• Ystyried yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon |
| 9 Mawrth | Thema: Cau'r grŵp a dathlu llwyddiant<br>• Edrych yn ôl ar siwrnai'r grŵp ers datgan yr argyfwng<br>• Cynlluniau ar gyfer llywodraethau a chraffu ar gynnydd y rhaglen hon wrth symud ymlaen<br>• Gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf i'r Cyngor. |

### 8. Unrhyw Fater Arall

GK – a fydd chwareli calchfaen yn cael eu cynnwys mewn cyfrifiad Defnydd Tir o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ac a fydd yna raglen fonitro? HVE – tir sy'n eiddo ac yn cael ei weithredu gan CSDd yn unig sy'n cael ei gynnwys yng nghwmpas y strategaeth.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag